



GwE

Bwletin GwE

CYDWEITHIO

DYSGU

LLWYDDO



#Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Neges gan GwE



Diolch i chi am eich gwaith eithriadol yn ystod y tymor hwn, a hynny dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Bu'r tymor hwn yn hynod o galed ac anodd i bawb eto.

Ddechrau Medi, fe rannwyd cyfeiriad cefnogaeth GwE dros y tair blynedd nesaf gyda chi. Rwyf yn awyddus i'ch diweddarau ymhellach ar y gwaith hwn, a rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r isadeiledd sydd ar gael i'ch cefnogi. Bydd yn gyfle i mi esbonio ein bwriadau wrth i ni gydweithio i roi ein hegri tu ôl i'r daith ddiwygio. Rydym yn llwyr werthfawrogi'r cryn heriau sydd o'n blaenau, gydag agenda Adnewyddu a Diwygio sylweddol i ni fynd i'r afael â hi.

Er mwyn cyflwyno hyn i chi, mae cyfarfodydd Zoom wedi'u trefnu ar yr amseroedd/dyddiadau canlynol (bydd cyfeiriad Zoom yn cael ei anfon i'ch e-bost ysgol):

Cynradd

Dydd Llun, 29 Tachwedd - 3:45 – 4:30 (Cyfrwng Cymraeg)

Dydd Mercher, 1 Rhagfyr - 3:45 – 4:30 (Cyfrwng Saesneg)

Uwchradd

Dydd Iau, 2 Rhagfyr - 12:30 – 1:15 (Cyfrwng Cymraeg)

Dydd Iau, 2 Rhagfyr - 3:00 – 3:45 (Cyfrwng Saesneg)

Arbennig / UCD

Cyfarfod i'w drefnu

Bydd y cyflwyniadau yn cael eu recordio a'u rhannu gyda phob ysgol yn ogystal.

Bydd yna gyfle i drafod y materion dan sylw yn eich fforymau penaethiaid lleol a gyda'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt yn eich clystyrau a'ch ysgolion unigol.

Edrychaf ymlaen yn eiddgar i'ch croesawu ac i esbonio ein bwriadau gyda chyllid ychwanegol i wireddu'r camau nesaf.

Arwyn Thomas

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE



Bryn Eirias, Ffordd Abergele,
Bae Colwyn, LL29 8BY



0300 500 8087



Canolfan Cefnogaeth GwE



@GwEGogleddCymru



post@gwegogledd.cymru



www.gwegogledd.cymru



g6.gwegogledd.cymru



GwE Gogledd Cymru

CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn ysgol.

Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6. Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

24/11/2021-16/03/2022	DYDDIAD	CYFRWNG
Rhaglen genedlaethol Cynorthwyrwyr Addysgu wrth eu Gwaith (sesiwn gyntaf)	24/11/2021	Cymraeg
ANG - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth (Sesiwn 4, Cyfrwng Cymraeg)	24/11/2021	Cymraeg
ANG - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth (Sesiwn 4, Cyfrwng Saesneg)	25/11/2021	Saesneg
Y Rhestr Wirio Arsylwi	26/11/2021	Saesneg
Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen Tymor yr Hydref 2021, cyfrwng Saesneg	30/11/2021	Saesneg
ANG a Lles Disgyblion (Sesiwn 3, Cyfrwng Cymraeg) Dyddiad newydd	01/12/2021	Cymraeg
ANG a Lles Disgyblion (Sesiwn 3, Cyfrwng Saesneg) Dyddiad newydd	02/12/2021	Saesneg
Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen Tymor yr Hydref 2021, cyfrwng Cymraeg	02/12/2021	Cymraeg
Chwarae sy'n Seiliedig ar Berthynas	03/12/2021	Saesneg
ANG - Cwricwlwm i Gymru - Hyrwyddo Addysgeg (Sesiwn 5, Cyfrwng Saesneg)	07/12/2021	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	08/12/2021	Saesneg
Rôl yr Oedolyn Allweddol	10/12/2021	Saesneg
ANG - Cwricwlwm i Gymru - Hyrwyddo Addysgeg (Sesiwn 5, Cyfrwng Cymraeg)	10/12/2021	Cymraeg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Cymraeg)	12/01/2022	Cymraeg
Cyflwyniad i Ymddygiadau Amddiffynnol i gefnogi lles	14/01/2022	Saesneg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Saesneg)	14/01/2022	Saesneg
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	26/01/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	16/02/2022	Saesneg
'Bioffilia' - 'Gwell mewn nag allan', Dr Coral Harper	09/03/2022	Saesneg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus am Drawma i Ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar	16/03/2022	Saesneg

Rhwydweithiau Rhanbarthol CiG

CYFARFODYDD I'R DYFODOL

Boreau:

- Dydd Mawrth 14 Rhagfyr 2021
- Dydd Mawrth 25 Ionawr 2022
- Dydd Mercher 2 Mawrth 2022
- Dydd Mawrth 5 Ebrill 2022
- Dydd Mercher 27 Ebrill 2022
- Dydd Mawrth 7 Mehefin 2022
- Dydd Mercher 29 Mehefin 2022



Cydweithio
Dysgu
Llwyddo



RHAGLENNI CENEDLAETHOL

Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Mae'r sesiynau hyfforddi **rhanbarthol** ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn fyw ar G6 bellach. Noder, yn benodol, y dyddiadau newydd ar gyfer ANG a Lles Disgyblion. Am ragor o fanylion a dyddiadau, gweler uchod o dan Cynnig Proffesiynol GwE, [yma](#) ac ar G6.

Recordiadau a fideos hyfforddiant cenedlaethol ANG 2021-22

RECORDIAD CYMRAEG	RECORDIAD SAESNEG
ANG Sesiwn 1 (Cymraeg)	NQT Session 1 (English)
Sesiwn 1 Mentor Sefydli (Cymraeg)	Induction Mentor Session 1 (English)
Hyfforddiant Gwirwyr Allanol (Cymraeg)	External Verifier Training (English)

Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Lansiwyd **Cylch 4** Rhaglen Datblygu Darpar CALU ym Medi 2021. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio wedi'i ymestyn i **26 Tachwedd 2021**. Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio. Cewch ragor o fanylion yn y [fideo](#).

Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).

NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

Gweminar Rhwydwaith STEM Gogledd

FFRAMWAITH AR GYFER STRWYTHURO DATBLYGIAD STEM MEWN YSGOLION

 02/12/2021  16:00-17:00  Digwyddiad Ar-lein

Y cyntaf mewn rhaglen o 5 sesiwn ar gyfer athrawon STEM a Chynllunwyr Cwricwlwm sydd â diddordeb mewn datblygu STEM yn eu hysgolion neu golegau.

Am ragor o fanylion, cliciwch [yma](#). Dilynwch y ddolen [hon](#) i gofrestru.



Gwella rhuglder darllen disgyblion ar lafar

Rydym yn falch o wahodd ysgolion i fynychu ein hail garfan o hyfforddiant ar gyfer strategaethau Rhuglder Geiriau Amledd Uchel Darllen Ailadroddol i helpu darllenwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn CA2 a CA3 is.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.



Gweithdai ar-lein i Athrawon Mathemateg

Bydd Dr Sally Bamber o Brifysgol Caer a Chris Henry, Pennaeth Mathemateg yn Ysgol Uwchradd Cei Connah yn arwain y gweithdai hyn. Dyma gyfres o 3 sesiwn un awr 'byw', **drwy gyfrwng y Saesneg** ar 'Zoom'. Maent ar agor i bob athro/athrawes Mathemateg yn rhanbarth GwE (addas i athrawon cynradd ac uwchradd). Manylion llawn ar gael [yma](#). Er mwyn cofrestru, cwblhewch y [ffurflen gofrestru](#) **erbyn dydd Gwener 3/12/21**.

Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen Tymor yr Hydref 2021

SESIWN CYFRWNG CYMRAEG: 2/12/2021 15:45–17:00

SESIWN CYFRWNG SAESNEG: 30/11/2021 15:45–17:00

Ffocws – Trafod y modiwlau isod a fydd yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru:

- Dysgu yn yr Awyr Agored
- Datblygiad Plentyn
- Trosglwyddo
- Arsylwi
- Chwarae a Dysgu drwy Chwarae
- Dysgu Dilys a Phwrrpasol

Cofrestrwch drwy G6.

Dyfodol Byd-Eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

Am ragor o wybodaeth neu am gymorth gyda'r eitemau isod, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru


Canolfan Cefnogaeth GwE: [Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/>

NEWYDDLEN ITM DYFODOL BYD-EANG:

UWCHRADD: [Cymraeg](#) | [Saesneg](#) **CYNRADD:** [Cymraeg](#) | [Saesneg](#)

NEWYDDION A GWYBODAETH CONSORTIA GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL



Pecyn E-Ddysgu Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Mae Partneriaeth Llesiant y Consortia wedi gweithio gyda @MindCymru i ddarparu mynediad at becyn e-ddysgu ymwybyddiaeth iechyd meddwl 45 munud i weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru.

Bydd y rhaglen hunan-gyfeiriedig hon—i wella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl—yn fyw am y 22 mis nesaf. Nid oes angen cyfrinair na manylion mewngofnodi i gael mynediad at yr e-ddysgu.

Mae'n agored i bawb ym maes Addysg: Cymorthyddion, Llywodraethwyr, Athrawon, LIC, ESTYN, NAEL, AauLI ayb. Os ydych chi'n gweithio ym maes Addysg, rydych chi'n gymwys i ddilyn y rhaglen ar-lein hon.

Am ragor o fanylion a mynediad: [Rhaglen Partneriaeth Lles \[PDF\]](#) / [Mind - Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yn y Gwaith \[SCORM\]](#)

GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

Digwyddiad #RadioRADY

07/12/2021 16:00-17:00 [Digwyddiad Ar-lein](#)

“Ydych chi wedi gofyn?”

Cyfarfod rhwydwaith 1 awr yn rhannu syniadau ar sut mae ysgolion yn defnyddio llais y disgybl i gefnogi'r rhai sydd arnynt ei angen fwyaf.

Rhagor o wybodaeth a manylion cofrestru ar gael [yma](#).

#RadioRADY

Ymunwch â ni YN FYW ar
7^{ed} Rhagfyr 4 - 5yh

“Ydych chi wedi gofyn?”

Rhannu syniadau ar sut mae ysgolion yn defnyddio llais y disgybl i gefnogi'r rhai sydd arnynt ei angen fwyaf.

Gweithredu'r System Anghenion Dysgu Ychwanegol

Roedd 1 Medi, 2021 yn nodi cychwyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd Cymru.

Dros y tair blynedd nesaf bydd plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn symud ymlaen fesul cam i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ynghylch y canllawiau newydd a hyfforddiant gweithlu i gefnogi'r gweithredu.



Cyfres o bodlediadau Cymraeg newydd sbon o'r enw 'Am Blant'

GAN YSGOL GWYDDORAU ADDYSG, PRIFYSGOL BANGOR

Oherwydd grant bychan gan y Coleg Cymraeg, aethpwyd ati i greu cyfres o 8 podlediad am faes penodol Plentynod ac leuenctid. Bydd y gyfres yn edrych ar y materion hynny sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru heddiw. Bydd aelodau'r paneli yn cynnwys aelodau staff o Brifysgol Bangor yn ogystal ag arbenigwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu dros blant a phobl ifanc mewn amrywiol feysydd e.e. anawsterau dysgu, dwyieithrwydd, datblygu llythrennedd trwy gerddoriaeth, beth mae ar blentyn ei angen i ffynnu yn addysgol, yn gymdeithasol ac yn seicolegol ac ati.

Dilynwch y [ddolen hon](#) i wrando ar y podlediad. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â r.tomos@bangor.ac.uk



Calendr Cost y Diwrnod Ysgol 2021-2022

Diben y Calendr yw helpu ysgolion i adnabod rhwystrau cost posibl yn ystod y flwyddyn academiaidd ac ystyried opsiynau gwahanol er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cymryd rhan lawn mewn addysg. Mae'r Calendr yn cynnwys syniadau ac enghreifftiau arfer dda gan ysgolion o Gymru, Lloegr a'r Alban sydd wedi cymryd rhan ym mhrosiect Cost y Diwrnod Ysgol. Rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

CHILD
POVERTY
ACTION
GROUP

Trafod Addysgeg - Tachwedd

Mae'r gweithgareddau a nodir [yma](#) ar y gweill ar gyfer **Trafod Addysgeg** ym mis Tachwedd.

Bydd angen i chi fod yn aelod o 'Trafod Addysgeg' i fod yn rhan o'r digwyddiadau hyn.

[Ymunwch â 'Trafod Addysgeg' yma](#)

Cyfleoedd newydd yn agor fel rhan o waith Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Mae'n bleser gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru gyhoeddi bod ceisiadau bellach ar agor ar gyfer cronfeydd **Ewch i Weld** ac **Ewch i Greu**, fel rhan o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

Gall ysgolion wneud cais am grantiau bach o hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau unigol â digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol mewn lleoliadau ledled Cymru.

Gall ysgolion hefyd wneud cais am grant o £1,000 i weithio gydag ymarferydd creadigol am bedwar diwrnod i'w cefnogi i ddarparu dulliau creadigol o ymgysylltu â dysgwyr.

[Cliciwch yma am yr holl wybodaeth ynglŷn â'r ddwy gronfa.](#)

Cyrsiau ar-lein i rieni: Cynorthwyo eich plentyn gyda mathemateg / Cynorthwyo eich plentyn i ddarllen

Bu'r cwrs ar-lein Cynorthwyo eich Plentyn i Ddarllen yn boblogaidd gyda rhieni ac mae croeso i rieni Cyfnod Sylfaen ymuno â'r cwrs hwn ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Yn ychwanegol, bydd cwrs Cynorthwyo eich Plentyn gyda Mathemateg, cwrs ar-lein yn cynnig syniadau i rieni Cyfnod Sylfaen ar sut i ymarfer rhifedd gartref a deall sut mae eu plentyn yn dysgu yn yr ysgol. Rhagor o fanylion [yma](#).

Adnoddau Cymraeg ar Hwb - gan athrawon, i athrawon


Hanfod Y Pair Bach (cynradd), Y Pair (uwchradd) a'r Gist (ail iaith uwchradd) yw annog athrawon o bob rhan o Gymru i rannu adnoddau cyfrwng Cymraeg. Mae croeso i chi osod adnoddau ynddynt yn ogystal â defnyddio'r rhai mae eraill yn eu gosod.

Y Pair Bach



<https://tinyurl.com/Hwb---Y-Pair-Bach>

Y Pair



<https://tinyurl.com/Hwb---Y-Pair>

Y Gist



<https://tinyurl.com/Hwb---Y-Gist>

Y Newyddion Gwyddoniaeth Cynradd diweddaraf

gan Gweld Gwyddoniaeth: <https://www.gweld-gwyddoniaeth.co.uk/whats-on/news/>

